# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru

Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Ystadegau Cenedlaethol
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Chwefror 2017
Parc Cathays, Caerdydd

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adam | Al-Nuaimi | AA | Llywodraeth Cymru |
| Rhiannon | Caunt | RC | Llywodraeth Cymru |
| Fiona | Clay-Poole | FC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Sam | Collins | SC | Llywodraeth Cymru |
| Peter | Fullerton | PF | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Ian | Harvey | IH | Prifysgol Caerdydd |
| Martin | Jennings | MJ | Comisiwn y Cynulliad |
| Leanne | John | LJ | Dinas a Sir Abertawe |
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Ann-Marie | McCafferty | AM | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Jenny | Murphy | JM | Uned Ddata Cymru |
| Scott | Orford | SO | Prifysgol Caerdydd |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Gâr |
| Yuan | Shen | YS | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Kim | Swain | KS | Llywodraeth Cymru |
| Hannah | Thomas | HT | Llywodraeth Cymru |
| Neil | Townsend | NT | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Alison | Vaughan | AV | Cyngor Sir Ceredigion |
| Andy | Wilson | AW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lowri | Wyn Francis | LW | Cyngor Gwynedd |
| Nia | Wyn Jones | NW | Cyngor Gwynedd |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Paul | Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Richard | Cardwell | Llywodraeth Cymru |
| Alan | Jackson | Llywodraeth Cymru |
| Jill | Edge | Cyngor Sir Mynwy |
| Neville | Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Matthew | Scanlon | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Janine | Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Phillip | Barlow | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Vicki | Doyle | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| David | Morgan | Cyngor Sir Penfro |
| Andrew | Stephens | Uned Ddata Cymru |
| Rhys | Gibbon | GIG Cymru |
| Chris | Clarke | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Greg | Dixon | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
| | Agorwyd y cyfarfod gan GJ a chroesawodd aelodau newydd. Roedd GD (y trefnwyd iddo roi cyflwyniad ar Fynediad at amcangyfrifon y Gofrestr Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) ar Nomis a Labordy Microdata Rhithiol (VML) y Swyddfa Ystadegau Gwladol) wedi anfon ymddiheuriadau – GJ i roi diweddariad ar offer Data SAIL yn lle hynny. | **Cam gweithredu:**<br>**GJ i ofyn i'r SYG a allent wneud nodyn ar fynediad at BRES neu drefnu telegynhadledd i ganiatáu trafodaeth.** |
| 2 | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a diweddariad ar y pwyntiau gweithredu (Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru 2016/10)** | |
| | Roedd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu wedi ei darparu. Trafodwyd y camau gweithredu:<br><br>Cam gweithredu 2: Nid oedd hyfforddiant Ystadegau Cymru i adrodd yn ôl amdano. Soniodd GJ am yr hyfforddiant PowerBI mewnol a gynhaliwyd.<br><br>GM i adrodd yn ôl ar brawf y cyfrifiad ym Mhowys – yn dal i fynd ymlaen – Cynhelir y prawf ym mis Mehefin/mis Medi 2017.<br><br>Camau gweithredu 9 a 10. RG ddim yn bresennol. GJ i gael gair â RG ac adrodd yn ôl i'r grŵp. | **Cam gweithredu:**<br>**GJ i ysgrifennu nodyn erbyn canol mis Mawrth ar hyfforddiant Ystadegau Cymru.**<br><br>**Cam gweithredu:**<br>**Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i RG am y newyddion diweddaraf ynghylch ei gamau gweithredu.** |
| 3 | **Adolygu'r papurau gwybodaeth** | |
| | **Cylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru**<br>Rhoddodd GJ grynodeb o Gylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trafodaeth benodol ar y canlynol:<br>• Data trafnidiaeth ar gael bellach ar Ystadegau Cymru – datblygiadau yn parhau ar hyn.<br>• Arolwg o ddefnyddwyr am eu barn ynglŷn ag amseriad diweddariad nesaf MALLC (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru). Bydd grŵp llywio MALLC yn trafod ac yn ymateb maes o law.<br>• Roedd AV (ac eraill) yn edrych am ystadegau mwy cyfredol ar dlodi tanwydd ar gyfer ardaloedd bychain.<br>• Atebodd SL fod diweddariad cymharol ddiweddar wedi bod o amcangyfrifon tlodi tanwydd ar lefel Cymru, ond nid ar gyfer ardaloedd bychain.<br>• Mae'r Rhaglen Dystiolaeth Cyflwr Tai (HCEP) yn anelu at ddarparu amcangyfrif gwell o dlodi tanwydd. Bwriedir cynnal arolwg sampl o gyflwr tai yn 2017-18. Fodd bynnag, annhebygol o gael data lefel is ar dlodi tanwydd tan 2019. Mae HCEP hefyd yn edrych ar ddata gweinyddol (colofn anheddau). Gall Aelodau gysylltu â'r tîm ar ystadegau.cyflwrtai@cymru.gsi.gov.uk os ydynt yn dymuno cymryd rhan.<br>• Mae Nigel Henretty yn y SYG yn gwneud gwaith ar fforddiadwyedd cartrefi ac efallai y bydd yn gwneud gwaith ar | **Cam gweithredu:**<br>**SL i sicrhau bod y data sydd ar gael ar dlodi tanwydd yn gliriach ar Ystadegau Llywodraeth Cymru a'r wefan ymchwil.**<br><br>**Cam gweithredu:**<br>**Pob un i gysylltu â ystadegau.cyflwrtai@cymru.gsi.gov.uk am wybodaeth bellach am y Rhaglen Dystiolaeth Cyflwr Tai.** |

| | | |
|---|---|---|
| | dlodi tanwydd hefyd.<br>• Cynigiodd LR rannu manylion arolwg cartrefi gwledig yn Sir Gâr, oedd wedi cynnwys cwestiynau ar wresogi cartrefi.<br>• Soniodd AV a LW hefyd am ffynonellau eraill o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol.<br><br>**Deddfwriaeth Rhannu Data**<br><br>• Rhoddodd GJ diweddariad ar y ddeddfwriaeth Rhannu Data. Mae Mesur yr Economi Ddigidol ar hyn o bryd yn mynd drwy'r Senedd (yn Nhŷ'r Arglwyddi). Efallai y bydd data, yn cynnwys ffynonellau fel data'r Adran Waith a Phensiynau neu ddata Cyllid a Thollau EM, ar gael fwy i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn o gymorth inni gael ystadegau ardaloedd bychain yn y pen draw.<br>• I gael mynediad at ddata bydd yn parhau'n angenrheidiol i chi ofyn am ganiatâd ac ystyried tegwch – ond bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud y porth cyfreithiol yn gliriach.<br>• Bydd modd rhannu data cofrestru sifil hefyd yn fwy eang gyda chymeradwyaeth y Cofrestrydd Cyffredinol o ganlyniad i'r Bil hwn.<br><br>**Cylchlythyr Demograffeg**<br><br>Gwahoddodd GJ sylwadau ar y cylchlythyr Demograffeg, a soniodd am oedi yn amcanestyniadau parciau cenedlaethol – efallai na fyddent ar gael cyn etholiadau llywodraeth leol. Cafwyd trafodaeth ynghylch argaeledd data poblogaeth ar gyfer ffiniau wardiau newydd (a gyhoeddwyd yn ddiweddar). Roedd AW yn disgwyl am ymateb gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch hyn. Mae angen gwybod cyn yr etholiadau lleol sydd i ddigwydd yn fuan.<br><br>• Ymatebodd AA i AW ynglŷn â rhai materion a godwyd ynghylch ffiniau wardiau yn Nhorfaen.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch anawsterau Cyrff y Sector Cyhoeddus i ddod o hyd i ddata ar gyfer ffiniau cymunedol – Dywedodd GJ y gallai Cyrff y Sector Cyhoeddus adeiladu gwybodaeth o boblogaeth Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a data arall (e.e. data dangosyddion MALLC) er mwyn cael y wybodaeth ddaearyddol sydd ar gael.<br><br>**Diweddariad ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Asesiadau llesiant:**<br><br>Mae Cynghorau wedi llunio eu hasesiadau llesiant drafft. Nododd yr Aelodau fod adborth anghyson wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar lefel y data a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau.<br><br>**Diweddariad yr Uned Ddata:**<br><br>Nodwyd bod rhai awdurdodau eto i ymrwymo i'r Gynhadledd Deallusrwydd Cenedlaethol ar 2 Mawrth.<br><br>**Diweddariad Arolwg Cenedlaethol**<br><br>Tynnodd GJ sylw at ddau allbwn – Cyhoeddir adroddiadau ar 1 | **Cam gweithredu: LR i rannu canlyniadau arolwg Aelwydydd Gwledig yn Sir Gâr.**<br><br>**Cam gweithredu: GJ i adael i bawb wybod os/pan fydd Mesur yr Economi Ddigidol wedi'i basio.**<br><br>**Cam gweithredu: AA i ofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol lle y maent wedi ei gyrraedd gyda diweddariadau i ffiniau wardiau.**<br><br>**Cam gweithredu: GJ i ofyn i Alan Jackson ddiweddaru'r grŵp ynghylch argaeledd amcangyfrifon poblogaeth ar lefel ward yn y dyfodol.**<br><br>**Cam gweithredu: GJ i drosglwyddo'r sylwadau ynghylch adborth anghyson ar Asesiadau Llesiant.** |

| | | |
|---|---|---|
| | Mawrth ar benderfynyddion nifer o ddangosyddion cenedlaethol lles cenedlaethau'r dyfodol, er enghraifft, cydlyniad cymunedol. Cyhoeddir canlyniadau cyntaf Arolwg Cenedlaethol 2016-17 ym mis Mehefin. | |
| **4** | **Porth data WISERD a Phorwr Mapiau Lle** | **Scott Orford ac Ian Harvey, Prifysgol Caerdydd ac Adam Al-Nuaimi, Llywodraeth Cymru yn y drefn honno** |
| | **Arddangosiad o Borwr Mapiau Lle: Adam Al-Nuaimi (lle.gov.wales a lle.gov.wales/map)**<br><br>• Hwn yw'r ail fersiwn o offeryn data sy'n adeiladu mapiau sylfaenol.<br>• Mae'n defnyddio data agored.<br>• Mae agweddau pwrpasol ar gyfer mapio – gellwch adeiladu/dewis mapiau ac edrych am y data sydd arnoch chi ei eisiau ar y map e.e. Parciau Cenedlaethol / ardaloedd o harddwch naturiol ac ati.<br>• Gellwch ei chwyddo ac mae hyn yn mynd i mewn i'r url – fel y gellwch rannu'r olygfa chwyddedig.<br>• Ychwanegir offer anodi cyn bo hir.<br>• Gellwch arbed y map i PDF gyda theitl y gellir ei olygu.<br>• Gellwch glicio i gael metadata.<br>• Mae rhai ffiniau eto i gael eu hychwanegu.<br><br>**Cyflwyniad ac arddangosiad gan Scott Orford ac Ian Harvey: Porth data WISERD (http://data.wiserd.ac.uk/index)**<br><br>• Mae hwn yn gwneud data ar gyfer Cymru yn fwy chwiliadwy a hygyrch – mae'n borth i ffynonellau data gwahanol.<br>• Esboniad sut y gellwch ddefnyddio'r offeryn i chwilio mewn ffynonellau data.<br>• Gellwch chwilio NOMIS / Ystadegau Cymru ac eraill - bydd rhai ffynonellau yn gweithio a rhai ddim.<br>• Mae'r offeryn yn mynd i Ryngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIau) ac yn nôl data ar gyfer cyflwyniad (ond nid yw'n ei storio).<br>• Mae hwn yn adnodd defnyddiol i ddelweddu eich data sensitif - mae'n ddiogel i fapio data cyn ei ryddhau gan fod y data yn aros ar eich cyfrifiadur.<br>• Mae hyn i gyd yn fyw ar-lein yn awr.<br>• Mae Mapmydata yn caniatáu i chi fapio eich data eich hun ar gyfer ardaloedd o Gymru. | **Cam gweithredu: Pawb i roi adborth i AA a SO/IH ar y modd y gallant ac y maent yn defnyddio'r offer yma.** |
| **5** | **Cyflwyno Cyfarpar Data Ymchwil Cenedlaethol** | **Glyn Jones** |
| | • Rhoddodd GJ ddiweddariad ar gyfarpar data a ddatblygwyd | **Cam gweithredu:** |

| | | |
|---|---|---|
| | gan dîm SAIL ym Mhrifysgol Abertawe gan esbonio ei fod yn gallu bod yn bwerus oherwydd ei fod yn galluogi sefydliad i gysylltu dwy ffeil ddata, y gall fod yn eu cadw yn ymwneud â'r un person, â'i gilydd tra'n cael gwared ar ei fanylion personol, i ddibenion ymchwil.<br>• I wneud hynny mae arnoch angen darn o galedwedd o'r enw "cyfarpar data"<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cymeradwyaeth i gynnal peilot ar gyfarpar data gyda phum awdurdod lleol, fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr rannu/cysylltu data ar draws awdurdodau lleol<br>• Bydd angen i sefydliadau yn y cynllun peilot gael gosod y pecyn offer TG a'i gysylltu â system ddiogelwch TG. Bydd hefyd angen iddynt ddysgu sut i'w ddefnyddio.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd yr offer y cyfarpar yn gymorth sylweddol i gydweithio a datblygu'r sylfaen o dystiolaeth ymchwil o fewn awdurdodau ac y bydd yn cefnogi gweithio'n rhanbarthol. Gallai arwain at ddulliau symlach ar gyfer rhannu data gyda SAIL a chyflwyno data i Lywodraeth Cymru o bosibl. | **Pawb i gysylltu â GJ os oes ganddynt ddiddordeb mewn cynnal peilot ar gyfarpar data SAIL.** |
| **6** | **Rhannu Gwybodaeth** | |
| | Ni ddigwyddodd rhannu gwybodaeth yn ffurfiol | |
| **7** | **Campws Gwyddor Data** | **Peter Fullerton, Swyddfa Ystadegau Gwladol** |
| | Cyflwyniad i'r hyn sy'n digwydd ar Gampws Gwyddor Data yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (prentisiaethau ac yn y blaen etc.); is-deitl - "Gwyddor data er budd y cyhoedd". Caiff y Campws ei lansio'n swyddogol ym mis Mawrth 2017.<br>• Mae Cynllun Cyflymu Data ar gael, ond mae'n rhaid ichi gyflwyno cais gyda syniad am brosiect er mwyn cael mynd ar y cynllun. Mae'n ddefnyddiol i gael y data y mae arnoch ei angen yn barod i fynd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.<br>• Mae canolfan yng Nghasnewydd erbyn hyn – mynediad haws i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno prosiect cychwynnol i'r Campws Gwyddor Data – defnyddio gwahanol adnoddau i ddeall llesiant mewn ardaloedd gwahanol. Gallai hyn gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth inni i gyd.<br>• Yr offer a ddefnyddir yw meddalwedd ffynhonnell agored (Python, Java, Spark, R).<br>• Y bwriad yw i bopeth fod yn agored a thryloyw iawn.<br>• Bydd tystiolaeth o brosiectau ar y wefan cyn bo hir.<br>• Mae'n ddefnyddiol cadw mewn cof bod y Campws Gwyddor Data yng Nghasnewydd – hyd yn oed os nad oes gennych syniadau ar gyfer prosiectau ar hyn o bryd. | |
| **8** | **Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad** | **Neil Townsend, Swyddfa Ystadegau** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Gwladol** |
| | Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â:<br>Cynhelir prawf y cyfrifiad eleni.<br>Mae cwestiynau newydd yn y cyfrifiad, y broses ar gyfer ychwanegu cwestiynau / tynnu cwestiynau allan neu addasu cwestiynau.<br><br>• Prawf y Cyfrifiad 2017 – Cynnal peilot ar gyflwyno'r cyfrifiad yn bennaf ar-lein yn lle ar bapur – edrych i weld sut mae hyn yn dylanwadu ar raddau ymateb ac yn y blaen. Soniodd GM fod un o'r ardaloedd prawf ym Mhowys. Bydd hefyd yn cynnal prawf ar effaith gofyn cwestiwn ynglŷn â hunaniaeth rywiol.<br>• Trafodwyd y cwestiwn ynghylch siarad Saesneg/Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf. Nododd rhai aelodau y byddai arnynt eisiau i'r Cyfrifiad adnabod y bobl yng Nghymru y mae'r Gymraeg yn brif iaith iddynt er mwyn bod yn gyson â'r cwestiwn yn Lloegr. Mae Glyn wedi bod yn siarad â'r SYG am fanteision ac anfanteision hyn ac wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cysondeb data ar y prif gwestiwn ynghylch yr iaith Gymraeg.<br>• Mae SYG yn ymchwilio i ba raddau y mae cwestiynau ynghylch rhyw neu hunaniaeth rywiol yn dderbyniol i'r cyhoedd. Mae cwestiwn ynghylch hunaniaeth rhyw ar nifer o holiaduron awdurdodau lleol oherwydd deddfwriaeth cydraddoldeb.<br>• Ni fydd y SYG yn derbyn atebion ond yn Saesneg a Chymraeg ond maent yn darparu cyfieithiadau i'r ffurflenni mewn oddeutu 14 o wahanol ieithoedd.<br>• Cyhoeddir adroddiad gwerthuso ar ôl Prawf y Cyfrifiad – a allai roi dealltwriaeth ar gyfer arolwg y gymuned gyfan. | **Cam gweithredu:<br>GM i roi adborth am brawf cyfrifiad Powys mewn cyfarfod PCYC diweddarach.**<br><br>**Cam gweithredu:<br>LR i anfon enghraifft o'r modd y cesglir gwybodaeth am hunaniaeth rhyw mewn arolygon lleol.** |
| **9** | **Unrhyw fater arall** | |
| | • Amlinellodd SK ymhellach ei gwestiynau ynglŷn â newidiadau i gyrchu data'r Gofrestr Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES). Cytunwyd sut i weithredu ar ddechrau'r cyfarfod.<br>• Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau, yr 8fed o Fehefin, yng Nghyffordd Llandudno – ceir cyfleusterau fideo-gynadledda. Roedd cytundeb cyffredinol mai cael un grŵp yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru i siarad drwy gynhadledd fideo fyddai'r trefniant gorau. | **Cam gweithredu:<br>SL i hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |

| Rhif | Crynodeb o'r camau gweithredu | Statws |
|---|---|---|
| 1. | GJ i ofyn i'r SYG a allent wneud nodyn ar fynediad at y Gofrestr Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) neu drefnu telegynhadledd i ganiatáu trafodaeth. | |
| 2. | GJ i ysgrifennu nodyn erbyn canol mis Mawrth ar hyfforddiant Ystadegau Cymru. | |
| 3. | Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i RG am y newyddion diweddaraf ynghylch ei gamau gweithredu. | |
| 4. | SL i sicrhau bod y data sydd ar gael ar dlodi tanwydd yn gliriach ar Ystadegau Llywodraeth Cymru a'r wefan ymchwil. | |
| 5. | Pob un i gysylltu â ystadegau.cyflwrtai@cymru.gsi.gov.uk am wybodaeth bellach am y Rhaglen Dystiolaeth Cyflwr Tai. | |
| 6. | LR i rannu canlyniadau arolwg Aelwydydd Gwledig yn Sir Gâr. | |
| 7. | GJ i adael i bawb wybod os/pan fydd Mesur yr Economi Ddigidol wedi'i basio. | |
| 8. | AA i ofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol lle y maent wedi ei gyrraedd gyda diweddariadau i ffiniau wardiau. | |
| 9. | GJ i ofyn i Alan Jackson ddiweddaru'r grŵp ynghylch argaeledd amcangyfrifon poblogaeth ar lefel ward yn y dyfodol. | |
| 10. | GJ i drosglwyddo'r sylwadau ynghylch adborth anghyson ar Asesiadau Llesiant. | |
| 11. | Pawb i roi adborth i AA a SO/IH ar y modd y gallant ac y maent yn defnyddio'r offer yma. | |
| 12. | Pawb i gysylltu â GJ os oes ganddynt ddiddordeb mewn cynnal peilot ar gyfarpar data SAIL. | |
| 13. | GM i roi adborth am brawf cyfrifiad Powys mewn cyfarfod PCYC diweddarach. | |
| 14. | LR i anfon enghraifft o'r modd y cesglir gwybodaeth am hunaniaeth rhyw mewn arolygon lleol. | |
| 15. | SL i hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth ynghylch y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf. | |